

Cylch Gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen
Cymeradwywyd yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiadau'r ALI ar 21^{ain} Mehefin 2017

Cyflwyniad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) statudol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrf cyhoeddus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae gan gyrf cyhoeddus gyfrifoldeb i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd i atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig.

Tra bod rhaid i bob corff cyhoeddus gwrdd â'r gofynion deddfwriaethol o fewn i'w sefydliadau eu hunain, mae yna ddyletswydd statudol hefyd i weithio mewn partneriaeth trwy BGC

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen yn sefydlu fframwaith llywodraethol a fydd yn cynnwys:

Strwythur llywodraethol sengl o aelodau statudol ac anstatudol i roi arweinyddiaeth strategol a gorchwyllo datblygiad a chyflenwad y cynllun lles, ei amcanion, blaenoriaethau a deilliannau, ymgymryd â gofynion statudol y bwrdd a thasgau eraill wrth iddyn nhw godi a bod gofyn amdany'n nhw gan y BGC

Sefydlu **is-grwpiau Cyflenwi** (ble mae'r angen) i ymateb i flaenoriaethau a deilliannau unigol; a

Fframwaith craffu i'w weinyddu gan y Cyngor gyda'r aelodaeth wedi ei chytuno a'i thynnu o ar draws y Bartneriaeth.

Noder: Bydd cefnogaeth weinyddol i'r Bwrdd yn cael ei rhoi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen trwy'r Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus (UCGC).

Amcan

Bwriad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen yw gweithredu fel y fforwm arweinyddol strategol blaenaf ar gyfer cynllunio, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cael deilliannau gwell i bobl Torfaen.

Amcanion y Bwrdd yw:

- Gwella ansawdd bywyd a deilliannau i drigolion Torfaen;
- Gweithio mewn partneriaeth, gan gytuno ar amcanion strategol, blaenoriaethau a gweithrediadau sy'n gwella deilliannau i drigolion gan gydweithio ar draws y bartneriaeth i ychwanegu gwerth trefniadol trwy rannu cyfrifoldeb i gyflenwi, cymryd risgiau, adnoddau a ffactorau eraill sy'n cefnogi cyflenwi'r cynllun lles

- Cefnogi cyfleoedd am weithio'n rhanbarthol ar draws Gwent er mwyn cymryd i ystyriaeth gwaith Grŵp Asesiad Lles Strategol Gwent a deilliannau Asesiad Lles Gwent.
- Rhoi arweiniad rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r problemau mwyaf heriol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus wrth gynllunio, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau i drigolion Torfaen;
- Ysgogi trafodaeth, cydlyniad a chydweithrediad rhwng sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y sector cyhoeddus i wella ac integreiddio cyflenwad y gwasanaeth i drigolion;
- Tynnu "rhwystrau" trwy leihau biwrocratiaeth ac effeithlonrwydd ataliol ffiniau sefydliadol;
- Dathlu llwyddiant wrth gyflenwi gwasanaethau i drigolion Torfaen;
- Ystyried 'gwerth gorau' a darbodaeth wrth wario adnoddau gwasanaethau cyhoeddus ac edrych i mewn i feysydd ble byddai cydweithio/integreiddio'n rhoi mwy o effeithlonrwydd a deilliannau gwell; a
- Cynnwys trigolion er mwyn iddyn nhw ddylanwadu ar sut yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Egwyddorion a gwerthoedd

Bydd y BGC yn cyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau gan ddefnyddio'r egwyddor datblygiad cynaliadwy cenedlaethol (pum ffordd o weithio). Mae hyn y golygu y bydd y Bwrdd yn 'gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, trwy gymryd i ystyriaeth yr egwyddor datblygiad cynaliadwy'.

Bydd y Bwrdd yn gweithredu'r pum ffordd o weithio trwy:

- Edrych ar y **tymor hir** fel nad ydym ni'n cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain
- Mabwysiadu dull **integredig** fel ein bod ni'n edrych ar y nodau lles wrth benderfynu'n blaenoriaethau
- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i gael hyd i atebion cynaliadwy
- Deall achosion craidd materion i'w **hatal** rhag digwydd.

Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n:

- a) Agored, uchelgeisiol a thryloyw gyda thrafodaeth onest
- b) Rhannu cyfrifoldeb am ddeilliannau, risgiau, adnoddau a chydberchnogaeth yn lleol ac yn rhanbarthol
- c) Ceisio atebion arloesol, gan edrych ar arfer gorau i gwrdd â deilliannau
- d) Mynegi anghenion a dyheadau pobl Torfaen
- e) Hybu cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a pharch i bobl Torfaen

Disgwylir i Aelodau'r BGC gynrychioli buddion ehangach Cymuned Torfaen, ble bo hynny'n briodol ac nid dim ond buddion unigol eu sefydliadau. Disgwylir i gynrychiolwyr ar y Bwrdd:

- Dderbyn cydberchnogaeth o'r Cynllun Lles a gofynion statudol y BGC, arwain fel partneriaid ar gynlluniau gwaith a gytunwyd ac adrodd ar gynnydd i'r BGC, Llywodraeth Cymru a Chraffu yn ôl y gofyn.
- Sefydlu a chytuno ar Grŵp Cefnogaeth Swyddogion (GCS) yn cynnwys holl bartneriaid y BGC i gefnogi'r bwrdd.
- Dynodi Arweinwyr Bwrdd i gefnogi rhaglen waith y Bwrdd
- Sefydlu grwpiau cyflenwi yn ôl y gofyn i gefnogi'r Arweinwyr
- Cynrychioli buddion eu sefydliadau / grwpiau wrth ymwneud â'r BGC ond ystyried y gymuned ehangach
- Gweithredu fel asiantiaid ar gyfer newid trawsnewidiol gan weithio o fewn eu sefydliadau eu hunain i gynrychioli buddion y BGC.
- Deall sut bydd yr amgylchedd allanol yn effeithio gallu'r BGC i gyflenwi ei gynnyrch a deilliannau a rhoi cymorth a chynghor i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl
- Dylanwadu ar a helpu i gydlynu sefydliadau a grwpiau eraill a'u hannog i fabwysiadu cynnyrch a deilliannau'r BGC
- Gweithredu mewn ffordd anhunanol – trwy weithredu er budd cyhoeddus yn unig. Ni ddylai Aelodau wneud hynny er mwyn cael budd ariannol neu arall iddyn nhw'u hunain, eu teuluoedd na'u ffrindiau
- Gweithredu'n onest - trwy beidio â gosod un hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu arall gydag unigolion neu sefydliadau ar y tu allan a all geisio dylanwadu arnyn nhw wrthyn nhw berfformio'u dyletswyddau swyddogol
- Gweithredu mewn ffordd wrthrychol - trwy gwblhau busnes cyhoeddus; gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, rhoi cytundebau neu gymeradwyo unigolion ar gyfer gwobrau a buddion – a gwneud dewisiadau ar sail haeddiant
- Bod yn atebol – am benderfyniadau a gweithredoedd eu hunain i'r cyhoedd a chyflwyno'u hunain i ba bynnag archwiliad sy'n briodol i'w gwaith
- Gweithredu mewn ffordd agored – trwy fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u penderfyniadau a'u gweithredoedd. Dylen nhw roi rhesymau am eu penderfyniadau a chyfyngu gwybodaeth dim ond pan fo'r budd cyhoeddus yn amlwg yn gofyn am hynny ac mae'n yna rheswm deddfwriaethol (e.e. sensitifrwydd cytundebol neu i ddiogelu unigolion)
- Gweithredu'n onest – bod â dyletswydd i ddatgan unrhyw fuddion preifat sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n amddiffyn budd cyhoeddus
- Dangos Arweiniad – trwy hybu a chefnogi'r egwyddorion yma trwy arweiniad ac esiampl.

Prosesu Deilliannau

I fod yn llwyddiannus wrth wella lles pobl Torfaen, bydd y BGC yn anelu at ac yn hybu, y deilliannau canlynol i'r broses:

- Gwasanaethau cyhoeddus wedi eu canoli ar y dinesydd ac sydd wedi eu cynllunio ac yn cael eu cyflenwi er mwyn canolbwyntio ar ddeilliannau cadarnhaol ac effaith i bobl yn Nhorfaen a, ble bo hynny'n briodol, yn y rhanbarth ehangach.
- Ymchwil a dadansoddiad data a gwybodaeth ehangach i roi tystiolaeth o flaenoriaethau, gweithredoedd a chynnydd
- Cydnabyddiaeth o, a chysylltiad gyda, chynlluniau a strategaethau ehangach – ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol – sy'n cyd-fynd â / dylanwadu ar waith y BGC
- Monitro perfformiad trwy ddulliau partneriaeth a gytunwyd
- Cydweithio tuag amcanion, blaenoriaethau a deilliannau penodol a gytunir
- Cynllunio ariannol ar y cyd
- Cofrestr risg BGC ar y cyd
- Datblygiad ar y cyd o'r gweithlu
- Perthnasau da rhwng sefydliadau partner
- Ymgysylltiad cadarnhaol gyda phobl leol a gwasanaethau cyhoeddus
- Gwasanaethau Cyhoeddus yn dangos atebolrwydd clir tuag at:
 - Pobl leol
 - Cyrff craffu / atebolrwydd awdurdod cyhoeddus etholedig ac eraill
 - Llywodraeth Cymru
 - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
 - Cyrff llywodraethol eraill (e.e. Y Swyddfa Gartref, Swyddfa Archwilio Cymru).

Gweithdrefn a rhaglen cyfarfodydd

1. Cynhelir cyfarfod cyntaf (gorfodol) y BGC o fewn 60 diwrnod ar ôl sefydlu'r Bwrdd ar ôl cylchdro etholiadol yr Awdurdod Lleol.
2. Bydd y bwrdd yma'n cyfarfod pob chwarter. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor a phenderfynir ar gadeirydd as is-gadeirydd rheolaidd yn y cyfarfod cyntaf hwnnw.
3. Rhaid i'r holl aelodau statudol neu eu cynrychiolwyr dirprwyedig fel y'i nodir yn y Ddeddf, fod yn bresennol ar gyfer penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfarfod cychwynnol er mwyn iddyn nhw gael eu hystyried yn rhai dilys. Mae hyn yn golygu bod rhaid gan yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gynrychiolaeth yn y cyfarfod hwn.
4. Rhaid i'r BGC gytuno ar ei gyfranogion gwahoddedig yn y cyfarfod cyntaf a rhaid danfon gwahoddiadau o fewn 1 wythnos ar ôl y cyfarfod hwn.
5. Daw cylchdro'r cyfarfodydd i ben pan fo etholiad cyffredin o Gynghorwyr (pob sedd ar y Cyngor i'w hethol neu eu hail-ethol) ar ddigwydd a chaiff y cylchdro (camau 1 - 5 uchod) ei ailadrodd pob tro ar ôl etholiad o'r fath.
6. Bydd cyfarfodydd ar ffurf gweithdy gyda phroblemau'n cael eu cyflwyno i'r BGC ar gyfer trafodaeth ar y cyd a phenderfyniadau. Danfonir yr agenda a phapurau atodol at aelodau wythnos cyn cyfarfodydd. Danfonir cofnodion at aelodau o fewn pythefnos o bob cyfarfod. Caiff agendâu a chofnodion eu rhoi

ar wefan y BGC unwaith y byddant wedi cael eu cymeradwyo mewn cyfarfodydd dilynol. Bydd eitemau'n cael eu heithrio neu eu cyfyngu dim ond pan fo'r budd cyhoeddus ehangach yn gofyn yn glir am hynny ac mae yna reswm deddfwriaethol (e.e. sensitifrwydd cytundebol neu i ddiogelu unigolion).

7. Gall unrhyw gynrychiolydd ar y Bwrdd ofyn am osod eitem ar yr Agenda gyda chaniatâd y Cadeirydd. Gall cynrychiolwyr ar y bwrdd godi materion nad ydyn nhw ar yr Agenda, ond dim ond gyda chaniatâd y Cadeirydd.
8. Bydd Safonau'r Iaith Gymraeg yn berthnasol i gyfarfodydd o ran agendâu, cofnodion a chyfieithu ar y pryd pan fo gofyn.

Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pedwar sefydliad statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a nifer o sefydliadau eraill yn cael eu gwahodd i gymryd rhan. Mae gan y Bwrdd ddisgresiwn i wahodd eraill sydd â swyddogaethau cyhoeddus.

Bydd sefydliadau partner yn chwarae rhan allweddol yng nghyflenwad strategol a gweithredol cynlluniau lles ac yn ffurfio aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ehangach sy'n ysgogi diwylliant o gydweithio ardderchog, arwain ar weithgareddau, rhannu risg a chyfraniadau ehangach er lles trigolion Torfaen.

Aelodaeth trefniadol craidd statudol a gwahoddedig y BGC yw:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Arweinydd a Phrif Weithredwr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Cadeirydd a Phrif Weithredwr neu uwch reolwr dirprwyedig
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru _ Prif Swyddog neu reolwr lleol dirprwyedig
- Cyfoeth Naturiol Cymru Wales – Prif Weithredwr neu reolwr lleol dirprwyedig
- Heddlu Gwent – Prif Gwnstabl neu uwch reolwr dirprwyedig
- Comisiwn Heddlu a Throsedd Gwent – Y Comisiynydd neu uwch reolwr dirprwyedig
- Gweinidogion Cymru neu eu cynrychiolwyr enwebedig
- Pennaeth Uned Cyflenwi Leol Gwent/Gwasanaeth Prawf Cymru
- Prif Weithredwr Cynorthwyol Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cadeirydd Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
- Prif Weithredwr – Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned
- Prif Weithredwr – Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen

*** Gall y BGC wahodd aelodau eraill i'r bwrdd yn ôl y gofyn i gyfrannu at waith y Bwrdd a bydd hyn yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i

Aelodau Gweithredol yn y Cabinet

Prif Swyddogion (ALI a Phartneriaethau)

Gofyniad Statudol i wahodd y sefydliadau hynny y mae gorfodaeth ar y BGC i ymgysylltu â nhw

Cynrychiolwyr gwahoddedig gan gynnwys y sector preifat.

Bydd gan y BGC Grŵp Cefnogaeth Swyddogion (GCS) i gefnogi gwaith y BGC a fydd yn cynnwys y gwahoddedigion canlynol:

- Pennaeth Rhanbarthol / Prif Arolygydd Torfaen, Heddlu Gwent

- Cynrychiolydd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
- Cynrychiolydd Uned Cyflenwi Lleol Gwent/Gwasanaeth Prawf Cymru
- Cynrychiolydd Prif Weithredwr Cynorthwyol Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru
- Prif Swyddog Cynghrair Gwirfoddol Torfaen a / neu Brif Swyddog sefydliad trydydd sector lleol
- Arweinydd Partneriaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Rheolwr Lleol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Ymgynghorydd Lleol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Rheolwr Lleol Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynrychiolydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Torfaen
- Rheolwr ar ran Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen
- Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltiad
- Penaethiaid Gwasanaeth

Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i **ymgysylltu** â:

- Cyngor Iechyd Cymunedol Gwent
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Coleg Gwent
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Rhaid i'r Bwrdd ofyn am gyngor y cyrff yma a gall benderfynu gwahodd unrhyw un ohonyn nhw i ymuno â'r Bwrdd neu, benderfynu ar ffordd arall o ymgysylltu â nhw mewn perthynas ag amcanion penodol / is-grwpiau cyflenwi.

Gellir estyn gwahoddiadau pellach i bartïon sydd â diddordeb (gan gynnwys busnes preifat).

Ystyrir gwahoddiadau o'r fath ochr yn ochr â datblygiad yr asesiad lles, gan y bydd hyn yn dangos yr angen i sefydliad ddod yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu'n rhan o is-grŵp cyflenwad, er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i wella lles yn llawn.

Cedwir cofnod gan yr UCGC o bob gwahoddiad i ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen a'r ymateb iddyn nhw. Bydd rhestr lawn o'r aelodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cael ei diweddarw wrth i'r aelodaeth newid.

Rôl a chyfrifoldebau

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd o ran lles ar gyrff cyhoeddus penodol i weithredu ar y cyd, trwy'r BGC, i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen trwy gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

- Cymru fwy llewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal

- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Rhaid i'r BGC weithio tuag at bob un o'r saith nod ac ni all ddewis rhoi un neu fwy uwchben y lleill.

Cyfraniad (a chynnyrch) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen o ran llwyddo i gyrraedd y saith nod fydd:

- Asesu cyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Nhorfaen – bydd hyn yn ôl cylchred o 5 mlynedd oni ddywed Llywodraeth Cymru fel arall
- Cyhoeddi pob asesiad lles
- Datblygu a chyflenwi cynllun lles, sy'n gosod amcanion lleol i wneud y mwyaf o gyfraniad partneriaid i gyrraedd y saith nod - bydd hyn yn ôl cylchred o 5 mlynedd oni ddywed Llywodraeth Cymru fel arall
- Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ar gyfer ymgynghoriad a chraffu ar asesiadau lles a chynlluniau lles
- Cyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd
- Cyhoeddi pob un o'r uchod yn ddwyieithog ar-lein a darparu copïau caled ar gais

Tra bod rhaid i'r awdurdod lleol, yn ôl y gyfraith, ddarparu cefnogaeth weinyddol, bydd y partneriaid i gyd **yn rhannu'r baich o ddarparu adnoddau i gyflenwi gwaith y Bwrdd** a llwyddo gyda'r nodau lles. Gall hyn fod trwy gyllid, personél eiddo, cyfarpar, arbenigedd a gwybodaeth.

Penderfyniadau

Disgwylir y bydd penderfyniadau ac argymhellion y BGC yn cael eu gwneud trwy gonsensws mewn cyfarfodydd; rhaid i'r aelodau statudol i gyd sy'n cynrychioli'r bwrdd fod yn bresennol er mwyn i unrhyw benderfyniad fod yn ddilys.

Dylid cyfaddawdu trwy gonsensws unrhyw fuddion sydd gwrthdaro rhwng yr aelodau cyn bod problemau ymarferol yn codi. Os nad oes modd cymodi, gofynnir am gyfryngiad annibynnol, gyda'r sefydliadau partner yn cytuno i dderbyn canlyniad y broses gyfryngu.

Ble mae hynny'n briodol, bydd rheolaeth risg a threfniadau cytundebol yn cael eu ffurfioli.

Cymryd Rhan

Bydd pobl sydd â diddordeb mewn gwella lles trigolion Torfaen a chymunedau ar draws Gwent o ganlyniad i waith Grŵp Asesiad Lles Strategol Gwent (GSWAG) yn cael cyfle i gymryd rhan trwy ddigwyddiadau ymgysylltiad a / neu trwy grwpiau cyflenwi. Bydd y Grŵp Ymgysylltiad Strategol yn cael eu cyfeirio gan y bwrdd a grwpiau ac yn defnyddio pobl mewn gwasanaethau rheng flaen / cymunedau i gysylltu â phobl Torfaen a thu hwnt. Bydd y Grŵp Ymgysylltiad Strategol hefyd yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i gefnogi cymryd rhan ac ymgysylltiad.

Wrth gwblhau asesiadau lles a datblygu cynlluniau lles bydd yna ddiwyddiadau lleol i annog pobl i weithio gyda'r BGC i adnabod problemau a phryderon, a chael hyd i atebion neu ffordd y gallwn gydweithio i wneud gwelliannau.

Bydd Atal yn brif nodwedd gwaith o'r fath.

Caiff y digwyddiadau eu hysbysebu trwy rwydweithiau lleol a'r cyfryngau. Ble bynnag y bo'n bosibl, bydd digwyddiadau'n mynd at bobl yn hytrach na gofyn i bobl ddod at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus .

Bydd grwpiau cyflenwi naill ai'n grwpiau sy'n bodoli eisoes neu'n cael eu sefydlu mewn perthynas â blaenoriaethau sydd wedi eu nodi a ffrydiau gwaith o'r asesiadau lles a'r cynlluniau lles. Bydd pobl sy ag arbenigedd o ran gwybodaeth / sgiliau'n cael eu gwahodd i gymryd rhan. Byddan nhw'n cael eu hadnabod trwy rwydweithiau presennol a gwaith ymgysylltiad yn y dyfodol. Bydd trefniadau adrodd yn rhan o gynlluniau gwaith blynyddol y BGC.

Bydd yna berthynas gyda Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf, sy'n ofyniad statudol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, a bydd trefniadau adrodd yn rhan o gynlluniau gwaith blynyddol y BGC.

Craffu ac Adroddiadau

Bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Torfaen.

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddarparu trefniadau gweithredol ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Pwyllgor yma'n:

- Derbyn ymgynghoriad ar bob asesiad a chynllun lles
- Derbyn copïau terfynol pob asesiad lles, cynllun lles ac adroddiad blynyddol
- Adolygu neu'n craffu ar benderfyniadau'r Bwrdd
- Adolygu trefniadau llywodraethol y Bwrdd
- Paratoi adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â'i swyddogaethau neu drefniadau llywodraethol
- Ystyried materion mewn perthynas â'r Bwrdd a gaiff eu cyfeirio ato gan Weinidogion Cymru (ac adrodd yn ôl at Weinidogion Cymru yn y fath amgylchiadau)

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen roi tystiolaeth, **ond dim ond mewn perthynas â busnes a chynlluniau'r Bwrdd**. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi derbyn gwahoddiad i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen.

Cwynion

Dylid danfon pob cwyn ynglŷn â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a fydd yn rhannu'r cwynion gyda holl aelodau'r Bwrdd ac yn nodi proses briodol i ymdrin â'r cwyn, gan roi adroddiad yn ôl wedyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus .

Cyllid ac adnoddau eraill

Gall Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen godi a dosbarthu arian (e.e. grantiau) ond bydd arian yn cael ei gadw ar ran y BGC gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a bydd gweithdrefnau rheolaeth ac atebolrwydd ariannol y sefydliad yma'n cael eu dilyn.

Cyfrifoldeb y partneriaethau perthnasol a / neu sefydliadau partner ac nid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen yw'r adnoddau angenrheidiol i weithredu unrhyw weithgareddau yn ymwneud â chyrraedd y deilliannau a rennir.